


Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 4

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
P am ... Parti	Celf a dylunio <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddylunio gwahoddiad i barti Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Pa glwb?	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Y trip	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> darganfod gwybodaeth berthnasol trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Jeli mewn weli	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Capoeira	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> gwrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso
Llysiâu'n canu	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> gwrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso Addysg gorfforol <ul style="list-style-type: none"> rhoi cynnig ar wahanol weithgareddau sy'n effeithio ar eu ffitrwydd a chael gwybod sut y gall hyfforddiant priodol wella ffitrwydd a pherfformiad Dylunio a Thechnoleg <ul style="list-style-type: none"> meddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynhyrchu syniadau ar gyfer eu cynhyrchion datblygu manyleb ar gyfer eu gwaith archwilio, datblygu a chyfleu'u syniadau dylunio mewn ystod o ffyrdd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cadarnhau'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau




Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Cwis, cwis, cwis	<ul style="list-style-type: none">Mae cyfleoedd i gysylltu â gwahanol agweddau ar y cwricwlwm wrth i'r disgyblion lunio cwestiynau allai fod yn berthnasol i feysydd gwahanol. Gellir hyd yn oed pennu maes cwricwlwm, e.e. cwestiynau daearyddiaeth / celf, os yw athrawon yn dymuno gwneud hynny.
Chwarae yn y mwd	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none">Ileoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau
Stori Siân	Mathemateg <ul style="list-style-type: none">cyfrifo gwahaniaeth amser Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none">Ileoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau
O gwmpas Cymru	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none">Ileoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau Mathemateg <ul style="list-style-type: none">cyfrifo gydag arian, cynilo a gwario Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none">darganfod gwybodaeth berthnasoltrosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
Byw ar blaned Mawrth	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none">darganfod gwybodaeth berthnasoltrosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddaudefnyddio offer TGCh

Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.



Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7

